Y Bwrdd Taliadau

**Papur Tystiolaeth**

# Cymorth ychwanegol ar gyfer Aelodau: Cymharu Deddfwrfeydd y DU

**Ionawr 2025**

**1. Mae'r papur tystiolaeth hwn yn ystyried gwahanol ddulliau o ddarparu cymorth ychwanegol i Aelodau anabl neu Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill, gan dynnu ar dystiolaeth o ddeddfwrfeydd y DU.**

**2.** Mae'r papur hwn yn rhoi trosolwg o'r cymorth ychwanegol y mae pedair deddfwrfa'r DU yn ei roi i'w haelodau. Mae'n rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer adolygiad y Bwrdd Taliadau o'r Penderfyniad, yn enwedig y darpariaethau a nodir ym Mhennod 3A 'Cymorth Ychwanegol' a darpariaethau perthnasol eraill.

**3.** Mae Pennod 3A o'r Penderfyniad yn nodi nifer o ddarpariaethau sy'n ceisio sicrhau nad oes unrhyw Aelod "dan anfantais afresymol o ganlyniad i'w anghenion neu amgylchiadau penodol". Yn ogystal â'r darpariaethau ym Mhennod 3A, mae cynnydd yn y Gwariant ar Lety Preswyl ar gael i Aelodau cymwys, fel y nodir ym mharagraff 4.4.3.h. o'r Penderfyniad. Mae gan Aelodau sydd â phartneriaid neu blant hawl hefyd i wneud hawliad am gostau 12 taith sengl ym mhob blwyddyn ar gyfer aelodau o'u teuluoedd, fel y manylir ym mharagraff 5.18. o'r Penderfyniad. Ceir crynodeb o'r darpariaethau hyn isod.

**4.** Ers i Bennod 3A gael ei chyflwyno ar ddechrau'r Chweched Senedd, mae busnes y Senedd a ffyrdd yr Aelodau o weithio wedi newid yn aruthrol. Mae gweithio o bell a gweithio hybrid wedi dod yn gyffredin ac fe'u cefnogir gan y Senedd, sy'n golygu bod gan Aelodau fwy o hyblygrwydd o ran cydbwyso neu ymateb yn well i ofynion amrywiol busnes y Senedd a'u hymrwymiadau etholaethol, yn ogystal â'u hanghenion personol neu eu hamgylchiadau teuluol.

**5.** Dylid nodi, fodd bynnag, fod Adroddiad Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar 'Seneddau Effeithiol a Chynhwysol' (2022) yn cynnwys 'archwiliad Coch, Melyn, Gwyrdd' a ddaeth i'r casgliad bod gan y Senedd statws coch ar gyfer gofal plant a darpariaethau sy'n ystyriol o blant

a statws oren ar gyfer cyfnod mamolaeth ac absenoldeb rhiant[1]. Mae'r dystiolaeth a aseswyd yn aneglur (nid yw'n glir a gafodd y Penderfyniad ei gynnwys fel rhan o'r adolygiad) a gallai'r casgliadau ymwneud yn rhannol diffyg crèche yn y Senedd a hygyrchedd cyfyngedig darpariaeth gofal plant yn lleol.

**6.** Mae'n bwysig nodi bod swyddogaethau'r Bwrdd Taliadau yn ymwneud â darparu cyflogau a lwfansau yn unig, ac er y gall darpariaethau'r Penderfyniad helpu i fodloni rhai o anghenion yr Aelodau, mae'r Senedd a Chomisiwn y Senedd yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o sicrhau bod trefniadau busnes yn 'ystyriol o'r teulu', bod yr ystâd a gwasanaethau seneddol yn hygyrch ac yn bodloni anghenion Aelodau a staff, a bod cyfleusterau ehangach yn cael eu hystyried.

**7.** Mae Comisiwn y Senedd yn parhau i gynllunio ar gyfer y Seithfed Senedd ac mae Pwyllgor Senedd y Dyfodol wrthi'n ystyried '*atebion i rwystrau (gwirioneddol a chanfyddedig) a all amharu ar allu'r Senedd i gynrychioli pobl o bob cefndir, profiad bywyd, dewis a chred, neu sydd â'r potensial i wneud hynny, gan gynnwys ystyried fersiynau drafft a therfynol y canllawiau ar amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol*'.

**8.** Mae'r papur tystiolaeth hwn yn crynhoi ac yn cymharu'r darpariaethau a'r cymorth yn y Penderfyniad yn unig, yn hytrach na'r rhai a ddarperir gan y Senedd neu Gomisiwn y Senedd.

[1] https://www.uk-cpa.org/media/4661/effective-and-inclusive-parliaments-final.pdf

# Cymorth cysylltiedig ag anableddau

## Darpariaethau'r Senedd (a ddarperir drwy'r Penderfyniad)

**9.** Caiff unrhyw Aelod hawlio cymorth o dan adran 3A am unrhyw gostau ychwanegol a ysgwyddir wrth alluogi unigolyn i gyflawni dyletswyddau'r Aelod hwnnw sy'n codi'n rhesymol o ganlyniad i amhariadau neu gyflyrau iechyd.

**10.** Gallai'r costau hyn ymwneud ag iechyd neu amhariadau Aelodau, iechyd neu amhariadau aelod o staff, neu hwyluso ymgysylltiad ag etholwyr anabl.

**11.** Nid oes dim terfyn ar y swm y gellir ei hawlio.

**12.** Ar ben hynny, mae darpariaethau ar gyfer treuliau eithriadol (paragraff 2.4) hefyd yn darparu hyblygrwydd ehangach i ymateb i anghenion penodol Aelodau, pe na bai'r rhain yn cael eu diwallu o dan Bennod 3A.

**13.** Darperir hefyd Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i Aelodau, a gellir defnyddio hon i sefydlu swyddfa etholaeth. Mae paragraff 6A.1.3. o'r Penderfyniad yn nodi 'dylai swyddfeydd fod yn fannau hygyrch i bawb sydd angen eu defnyddio'. Gan hynny, dylai Aelodau wneud asesiad o hygyrchedd eu swyddfeydd cyn cymryd prydlesau a gallant hefyd hawlio am addasiadau rhesymol i swyddfeydd lle bo'n briodol.

## Darpariaethau Senedd y DU

**14.** Mae Cynllun Costau Staffio a Busnes yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (IPSA) yn gwneud darpariaethau ar gyfer cymorth i Aelodau Seneddol o ran cyfrifoldebau gofalu, anabledd ac absenoldeb rhiant.[2]

**15.** Gall Aelodau Seneddol wneud hawliad am gostau 'cymorth anabledd' yr eir iddynt drwy ddarparu addasiadau rhesymol i bobl anabl, gan gynnwys nhw eu hunain, aelodau staff, gwirfoddolwyr, ymgeiswyr am swyddi neu etholwyr sy'n ymweld â swyddfa neu gymhorthfa'r Aelod.

**16.** Gellir gwneud hawliad am gymorth anabledd i dalu costau unrhyw addasiadau i'r gweithle, gan gynnwys costau staff a chostau cysylltiedig; offer TG ac offer arbenigol eraill; dodrefn

[2] researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-9995/CBP-9995.pdf

swyddfa; addasiadau i adeiladau swyddfa neu lety; costau sicrhau swyddfeydd neu lety mwy; a chostau teithio ychwanegol (gan gynnwys ar gyfer gofalwyr neu staff cymorth lle bo angen).

**17.** Lle bydd cost yr addasiad(au) rhesymol yn hysbys, bydd IPSA yn agor cyllideb wedi'i chapio ar gyfer y swm hwnnw. Lle bydd y gost yn anhysbys neu'n barhaus, bydd IPSA yn agor cyllideb heb ei chapio.[3]

## Darpariaethau Senedd yr Alban

**18.** Gall Aelod anabl wneud cais i Gorff Corfforaethol Senedd yr Alban (SPCB) am ad-daliad o gostau yr eir iddynt mewn cysylltiad ag adnoddau ychwanegol y mae eu hangen yn rhesymol ar gyfer cyflawni dyletswyddau seneddol yr Aelod.

**19.** Wrth ddewis rhywle ar gyfer swyddfa seneddol leol, rhaid i Aelod sicrhau bod y safle yn hygyrch neu fod modd ei wneud yn hygyrch. Gall Aelod wneud cais i'r SPCB am ad-daliad o gostau y mae'n mynd iddynt mewn cysylltiad â:

**20.** gwneud addasiadau rhesymol i'r swyddfa er mwyn darparu ar gyfer aelod anabl o staff a/neu hwyluso mynediad i aelodau anabl o'r cyhoedd

- darparu offer a/neu leoedd parcio i bobl anabl; neu

**21.** (c) hwyluso cyfarfodydd sy'n cynnwys pobl anabl trwy logi (ar sail achlysurol) safle cyfarfod amgen.

## Darpariaethau Cynulliad Gogledd Iwerddon

**22.** Caiff Aelod adennill costau a ysgwyddir lle y gellir eu priodoli'n gyfan gwbl ac o reidrwydd i anabledd sydd gan yr Aelod.[4]

**23.** Ni ellir adennill unrhyw gost oni bai bod tystiolaeth foddhaol gan ymarferydd meddygol sy'n arbenigo mewn iechyd galwedigaethol a enwebwyd gan y Comisiwn fod y gost yn gost-effeithiol ac y gellir ei phriodoli'n gyfan gwbl ac o reidrwydd i anabledd sydd gan yr Aelod.

**24.** Telir am unrhyw addasiadau i'r swyddfa etholaeth o gyllideb swyddfa'r Aelod.

[3] Disability Assistance funding
[4] assembly-members-salaries-and-expenses-determination-northern-ireland-2016.pdf

# Cymorth i Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofal plant a chyfrifoldebau gofal eraill

Darpariaethau'r Senedd (a ddarperir drwy'r Penderfyniad)

**25.** Caiff Aelodau wneud hawliad am ad-daliad o gostau o hyd at uchafswm o £340 y mis ar gyfer gofalu am blant neu oedolion dibynnol, os bydd angen gofal o'r fath yn benodol i alluogi Aelodau i gyflawni eu dyletswyddau.

**26.** Dim ond am gostau a ysgwyddir yn ystod wythnosau eistedd y Senedd a'r tu allan i'w horiau gwaith arferol, fel y nodir yn Rheol Sefydlog 11.10 (9.00am - 6.00pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith), y gellir gwneud hawliadau.[5]

**27.** Gellir gwneud hawliadau mewn perthynas ag unrhyw blentyn o dan 16 oed, ac oedolyn dibynnol, a ddiffinnir fel a ganlyn:

> *a. priod, partner, rhiant neu berson arall sy'n byw yn yr un cartref â'r Aelod (heblaw am fod yn gyflogai, yn denant neu'n lletywr), neu*
>
> *b. rhywun sy'n dibynnu'n rhesymol ar yr Aelod am ei ofal neu i wneud trefniadau ar gyfer ei ofal*

**28.** Caiff Aelodau hawlio ad-daliad costau gofal a ddarperir gan ddarparwyr gofal cofrestredig. Mae'r Tîm Cymorth Busnes i Aelodau ar gael i gynghori Aelodau o ran cymhwysedd ar gyfer y lwfans hwn.

**29.** Ar ben hynny, mae'r Penderfyniad yn darparu ar gyfer rhywfaint o deithio i deulu Aelod, ac i Aelod wneud hawliad am 12 taith sengl a wneir gan bartner i Aelod a/neu unrhyw blentyn o dan 18 oed ar drafnidiaeth gyhoeddus, rhwng y Senedd (a ddiffinnir fel Ardal Caerdydd) ac etholaeth neu ranbarth neu brif gartref yr Aelod.

**30.** O dan baragraff 5.19.1. caiff partner i Aelod (neu blentyn o dan 18 oed) deithio mewn car yn hytrach na theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'n rhaid i hawliadau o'r fath gael eu gwneud ar wahân i deithiau car yr Aelod ei hun, a chaiff y rhain eu cyfrif yn erbyn y terfyn o 12 taith sengl.

---

[5] Rheolau Sefydlog Senedd Cymru

## Darpariaethau Senedd y DU

**31.** Ni ddarperir cyllideb benodol i Aelodau Seneddol ar gyfer ad-dalu am gymorth gofal plant neu ofal dibynyddion. Fodd bynnag, mae mathau anuniongyrchol o gymorth, megis cynlluniau meithrin treth-effeithlon a cheisiadau brys o dan amgylchiadau eithriadol.

**32.** Mae Meithrinfa Tŷ'r Cyffredin yn darparu gwasanaethau gofal i ddeiliaid pàs seneddol; mae'n cynnig gwasanaethau o 08:00 tan 18:00 drwy gydol yr wythnos waith.[6] Fodd bynnag, dylid nodi na all hawliadau am gost y gwasanaeth gael eu had-dalu trwy Gynllun IPSA ar gyfer Costau Staffio a Busnes ASau.[7]

## Darpariaethau Senedd yr Alban

Mae'r Cynllun Treuliau Aelodau yn darparu ar gyfer cymorth llety ychwanegol i Aelodau sydd â chyfrifoldeb gofalu a chymorth anabledd. Yn ogystal, mae cyfleuster crèche ar gael ar y safle am dridiau'r wythnos. Gall Aelodau adael plant dan bump yno am hyd at bedair awr y dydd yn rhad ac am ddim.[8]

## Darpariaethau Cynulliad Gogledd Iwerddon

Nid oes darpariaethau gofal plant neu ofal dibynyddioni'w gweld yn y Penderfyniad nac ar wefan Cynulliad Gogledd Iwerddon.

[6] Parliamentary Creche Criteria
[7] **Westminster Nursery: Taxpayers fork out £500k for MPs' childcare as Westminster nursery racks up bill due to home working**
[8] Crèche | Gwefan Senedd yr Alban [Cyrchwyd 23.01.25]

# Cymorth i Aelodau ar absenoldeb rhiant

## Darpariaethau'r Senedd (a ddarperir drwy'r Penderfyniad)

**33.** Ystyr absenoldeb rhiant yw absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth neu absenoldeb mabwysiadu. Yn ystod absenoldeb o'r fath, bydd Aelodau'n aros ar eu cyflog llawn gan gynnwys unrhyw gyflog deiliad swydd ychwanegol y mae ganddynt hawl iddo.

**34.** Gellir cymryd absenoldeb mamolaeth a thadolaeth cyn genedigaeth plentyn, neu i ofalu am blentyn bach (plentyn sydd o dan 12 mis oed). Gellir cymryd absenoldeb mabwysiadu i ofalu am blentyn mabwysiedig o fewn y 12 mis cyntaf ar ôl ei fabwysiadu. Mae Aelodau yn cael cyflog llawn am gyfnod yr absenoldeb rhiant.

**35.** Mae gan Aelodau hefyd hawl i wneud hawliad am ad-daliad am gostau rhesymol naill ai aelod ychwanegol o staff neu adnodd ychwanegol arall hyd at gyfanswm o 12 mis, er mwyn caniatáu parhad wrth gyflawni dyletswyddau'r Aelod nad ydynt yn ymwneud â busnes ffurfiol y Senedd.

**36.** Rhaid i'r ddogfennaeth berthnasol gael ei chyflwyno gydag unrhyw hawliad a wneir o dan y ddarpariaeth hon er mwyn dangos yr absenoldeb a gymerir, e.e. ffurflen MATB1 am absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth a Thystysgrif Paru ar gyfer absenoldeb mabwysiadu.

## Darpariaethau Senedd y DU

**37.** Mae Aelodau Seneddol sy'n cymryd amser i ffwrdd ar ôl genedigaeth neu fabwysiadu plentyn yn gymwys am gyllid cyflenwi ar gyfer eu swyddfa yn ystod eu habsenoldeb (fel arfer pan fydd hyn yn hwy na thri mis). Telir cyflog llawn i ASau yn ystod eu habsenoldeb rhiant.[9]

**38.** Telir hwn o gyllideb absenoldeb rhiant ASau, hyd at uchafswm o £68,847.[10] Bydd cyllid ar gyfer cyflenwi fel arfer yn cael ei ddarparu am hyd at gyfanswm o saith mis ar gyfer y rhiant biolegol neu'r prif fabwysiadwr. Gellir cytuno ar gyfnodau hwy fesul achos.

**39.** Rhaid i dystiolaeth gael ei darparu, fel y nodir yn y canllawiau.

[9] **https://www.ipsaonline.org.uk/guidance/leave-and-holidays** [Cyrchwyd 20.06.24]
[10] Daw'r ffigurau o'r Cynllun ar gyfer 2024-25

## Darpariaethau Senedd yr Alban

**40.** Dim ond cyflogeion sy’n cael manteisio ar hawliau statudol a chytundebol. Gan eu bod yn ddeiliaid swyddi yn hytrach na chyflogeion, **nid yw Gweinidogion yr Alban nac ASau yn gymwys yn awtomatig ar gyfer unrhyw hawliau statudol cyfatebol i wyliau a thâl.** Nid yw eu hawl i dâl a buddion yn cael ei llywodraethu gan gontract cyflogaeth ychwaith. Mae penderfyniadau ynghylch caniatáu a hyd yr hyn sy’n cyfateb i gyfnod mamolaeth ffurfiol yn gyfan gwbl yn fater i ddisgresiwn Prif Weinidog yr Alban, yn dilyn trafodaethau â’r Ysgrifennydd Cabinet neu Weinidog unigol. [11]

## Darpariaethau Cynulliad Gogledd Iwerddon

**41.** Mae’r hawl i absenoldeb a thâl mamolaeth statudol, absenoldeb a thâl tadolaeth, absenoldeb a thâl mabwysiadu, absenoldeb rhiant a rennir a thâl, ac absenoldeb rhiant yn dod o dan y darpariaethau statudol sydd mewn grym am y tro yng Ngogledd Iwerddon.

**42.** Mae gan Aelod Cynulliad Gogledd Iwerddon yr hawl hefyd i lwfans ychwanegol yn ystod cyfnod mamolaeth, absenoldeb mabwysiadu neu absenoldeb rhiant a rennir i gyflogi rhywun, gan gynnwys drwy asiantaeth waith dros dro, i’w gynorthwyo gyda rhai o’i swyddogaethau fel Aelod. Y gost uchaf y gellir ei hadennill yw £25,000 ac ni ellir adennill costau am gyfnod sy'n hwy na chwe mis o ddyddiad cychwyn yr 'absenoldeb rhiant'.

[11] https://www.gov.scot/news/cabinet-secretary-for-wellbeing-economy-net-zero-and-energy-announces-pregnancy/

# Costau Llety Ychwanegol

**43.** Mae pob un o bedair deddfwrfa'r DU yn darparu ar gyfer lefelau amrywiol o lety dros nos i Aelodau wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau a mynychu adeilad y ddeddfwrfa. Mae'r adran a ganlyn yn crynhoi'r ddarpariaeth 'llety ychwanegol' sydd ar gael i Aelodau anabl neu Aelodau â dibynyddion.

## Darpariaethau'r Senedd (a ddarperir drwy'r Penderfyniad)

**44.** Yn amodol ar gymeradwyo achos busnes, gall Aelodau sy'n gallu dangos bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu ar gyfer dibynnydd sydd fel arfer yn byw gyda nhw yn ardal Caerdydd hawlio £1,735 ychwanegol y flwyddyn (£144.58 y mis) i dalu am gost uwch llety addas.[12] Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 15% yn y gyfradd llety sylfaenol ar gyfer Aelodau'r ardal allanol.[13]

**45.** Byddai Aelodau'r Ardal Allanol sydd â chyfrifoldebau gofalu yn gallu hawlio cyfanswm o hyd at £13,495 y flwyddyn (£1,124.58 y mis) am lety yng Nghaerdydd.

**46.** Mae cymorth ychwanegol, drwy Bennod 3A neu'r darpariaethau treuliau eithriadol (ym mharagraff 2.4 o'r Penderfyniad) ar gael i Aelodau â chyflyrau iechyd neu amhariadau. Nid oes cyfyngiad ar y swm y gellir ei hawlio o dan y ddarpariaeth hon. Caiff pob hawliad ei ystyried fesul achos.

## Darpariaethau Senedd y DU

Gall Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu hawlio cyllidebau ychwanegol: mae cymhwysedd yn dibynnu ar amgylchiadau. Yn 2024-25, terfyn ychwanegol y gyllideb yw £6,680 fesul dibynnydd. Mae uchafswm o dri "chynnydd" wedi bod ar waith ers mis Ebrill 2017.[14]

Gellir hefyd hawlio cymorth anabledd i dalu costau addasiadau i lety, neu gostau sicrhau llety mwy.[15]

---

[12] Ffigurau o Benderfyniad 2024-25

[13] Mae nodyn briffio ar wahân ar gael sy'n edrych ar esblygiad y codiad yn y Gwariant ar Lety Preswyl ac yn cymharu â darpariaethau yng Nghynllun IPSA ar gyfer Costau Staffio a Busnes Aelodau Seneddol. Briefing RAE Outer Area and Caring Element Dec 2023.docx

[14] CBP-9995.pdf

[15] IPSA – The Scheme of MPs' Staffing and Business Costs 2024-25

## Darpariaethau Senedd yr Alban

**47.** Pennir lefel y cymorth llety sydd ar gael i ASAau yn ôl tri chategori yn seiliedig ar leoliad eu prif breswylfa mewn perthynas â Chaeredin. Fel rheol, dim ond ASAau sy'n cynrychioli etholaethau yng Ngrŵp Tri (y rhai yr ystyrir eu bod y tu hwnt i bellter cymudo rhesymol) sy'n gymwys i hawlio ad-daliad am lety ar les yng Nghaeredin.[16]

**48.** Gall Aelodau anabl neu Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu am ddibynyddion y mae eu prif breswylfa yng Ngrŵp Dau (etholaethau yr ystyrir eu bod o fewn pellter cymudo rhesymol) wneud cais am ad-daliad o gostau llety ar les o dan yr un darpariaethau ag sydd ar gael i Aelodau Grŵp Tri. Gall yr SPCB gymeradwyo cais o'r fath mewn amgylchiadau eithriadol.

**49.** Nid oes unrhyw gynnydd yn y gyllideb ar gyfer y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu. Cyfraddau 2024-25 ar gyfer llety ar les yng Nghaeredin yw £20,700.[17]

## Cynulliad Gogledd Iwerddon

**50.** Mae'r Penderfyniad ar gyfer Cynulliad Gogledd Iwerddon yn gwneud darpariaethau cyfyngedig ar gyfer llety dros nos i Aelodau yn gyffredinol. Gall Aelodau adennill costau llety dros nos:

- os yw'r Cynulliad yn parhau i eistedd yn hwyrach na 10:00pm
- os yw'r Aelod yn bresennol yn y sesiwn honno, ac
- os yw'r Aelod yn aros mewn llety dros nos ar ôl i'r sesiwn honno ddod i ben.

**51.** Fodd bynnag, nid yw'r Penderfyniad yn manylu ar unrhyw ddarpariaethau ar gyfer cymorth llety ychwanegol i Aelodau anabl nac i Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu.

---

[16] Reimbursement of Members' Expenses Scheme

[17] Ibid.

# Atodiad A: Tabl Cymharu Darpariaeth (2024-25)

| Cymorth | *Deddfwrfa* | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Y Senedd** | **Senedd y DU** | **Senedd yr Alban** | **Cynulliad Gogledd Iwerddon** |
| Disabilities | Mae Adran 3A yn ymdrin â hawliadau diderfyn am gostau sy'n ymwneud ag iechyd neu amhariad ar gyfer Aelodau a staff, neu ar gyfer ymgysylltu ag etholwyr anabl. Nid oes dim terfyn ar y swm y gellir ei hawlio. Gall Aelodau hefyd hawlio drwy ddarpariaethau treuliau eithriadol os oes angen. | Mae'r Cynllun IPSA yn cefnogi ASau gyda chostau gofal, anabledd ac absenoldeb rhiant. Gall ASau hawlio am addasiadau rhesymol ar gyfer unigolion anabl, gan gynnwys nhw eu hunain, staff ac ymwelwyr. Caiff cyllidebau eu capio ar gyfer costau hysbys, ond nid oes cap os ydynt yn barhaus neu'n anhysbys. | Gall Aelodau anabl geisio ad-daliad gan SPCB am adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer eu dyletswyddau. Rhaid i ASau sicrhau bod swyddfeydd lleol yn hygyrch neu fod modd eu haddasu. Mae modd ad-dalu costau addasiadau, offer, parcio, neu fannau cyfarfod amgen ar gyfer unigolion anabl. | Gall Aelodau adennill costau sy'n gysylltiedig ag anabledd os bydd arbenigwr iechyd galwedigaethol a enwebwyd gan y Comisiwn yn ystyried eu bod yn angenrheidiol ac yn gost-effeithiol. Ariennir addasiadau i swyddfa o gyllideb swyddfa'r Aelod. |
| Gofal plant a chyfrifoldebau gofal eraill | Gall Aelodau hawlio hyd at £340 y mis am ofal plant neu ofal oedolion dibynnol yn ystod wythnosau eistedd y Senedd y tu allan i 09.00 - 18.00.<br><br>Gall Aelodau wneud hawliad am 12 taith sengl ar drafnidiaeth gyhoeddus y mae partner i Aelod a/neu unrhyw | Nid yw Aelodau Seneddol yn gallu hawlio ad-daliad am gostau gofal plant neu ofal oedolion dibynnol.<br><br>Mae cyfleuster crèche (yn amodol ar ffioedd) ar gael i ddeiliaid pàs seneddol ym Meithrinfa Tŷ'r Cyffredin, sy'n gweithredu o 08:00-18:00, o ddydd Llun i ddydd Gwener. | Nid yw ASAau yn gallu hawlio ad-daliad am gostau gofal plant neu ofal oedolion dibynnol.<br><br>Mae cyfleuster crèche ar gael ar y safle am dridiau'r wythnos. Gall Aelodau adael plant dan 5 oed yno am hyd at bedair awr. | Nid oes darpariaethau i'w gweld yn y Penderfyniad nac ar wefan Cynulliad Gogledd Iwerddon. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | blentyn o dan 18 oed yn ymgymryd â hi rhwng y Senedd (a ddiffinnir fel Ardal Caerdydd) ac etholaeth neu ranbarth neu brif gartref yr Aelod. | | | |
| Absenoldeb Rhiant | Mae absenoldeb rhiant yn cynnwys absenoldebau mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu, gydag Aelodau'n cadw eu cyflog llawn yn ystod y cyfnodau hyn.<br><br>Gall Aelodau hawlio costau ar gyfer staff neu adnoddau ychwanegol am hyd at 12 mis i sicrhau parhad dyletswyddau anseneddol. | Mae ASau sydd ar absenoldeb rhiant yn dilyn genedigaeth neu fabwysiadu yn derbyn cyflog llawn.<br><br>Gall ASau hefyd hawlio hyd at £68,847 ar gyfer cyflenwi yn y swyddfa, fel arfer am hyd at 7 mis. Rhaid i gyfnodau cyflenwi hwy gael eu cymeradwyo a rhaid wrth dystiolaeth ategol yn unol â’r canllawiau. | Mae gan Aelodau sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd hawl i absenoldeb a thâl cytundebol statudol ac uwch. Deiliaid swydd yw ASAau, nid cyflogeion, felly nid ydynt yn gymwys yn awtomatig ar gyfer unrhyw hawliau statudol neu gytundebol i wyliau a thâl. | Mae’r Penderfyniad yn cynnwys cymorth ar gyfer cyfrifoldebau absenoldeb rhiant, sy’n cwmpasu absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu ac absenoldeb rhiant a rennir.<br><br>Gall Aelodau hawlio hyd at £25,000 am gyfanswm o hyd at chwe mis ar gyfer cymorth staffio ychwanegol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Lwfans Llety | Gall Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu am ddibynnydd sy'n byw gyda nhw yng Nghaerdydd hawlio £1,735 o gostau llety ychwanegol y flwyddyn.<br><br>Mae lwfansau ychwanegol ar gael i Aelodau anabl. | Gall ASau hawlio £6,680 ychwanegol fesul dibynnydd (hyd at 3) i gynyddu eu cyllideb llety ar gyfer tai mwy neu dai addas.<br><br>Mae lwfansau ychwanegol ar gael i Aelodau anabl. | Mae cymorth llety ASAau yn dibynnu ar eu grŵp etholaeth, gyda Grŵp Tri (y tu hwnt i bellter cymudo) fel arfer yn gymwys ar gyfer llety ar les yng Nghaeredin.<br><br>Gall Aelodau anabl neu Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu yng Ngrŵp Dau (pellter cymudo) wneud cais am yr un cymorth o dan amgylchiadau eithriadol, yn amodol ar gymeradwyaeth SPCB. | Nid yw'r Penderfyniad yn manylu ar unrhyw ddarpariaethau ar gyfer cymorth llety ychwanegol i Aelodau anabl nac i Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu. |